



Beth rydyn ni'n ei wybod am waith ieuenctid yng Nghymru

A sut i weithio gyda'n gilydd i'w wella

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

wavehillTM

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd


Cyflwyniad

Fe wnaethon ni ymchwil ar gyfer y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro i gael gwybod rhagor am waith ieuenctid yng Nghymru a beth yw barn pobl amdano. Bydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r ymchwil hwn i helpu i wella gwaith ieuenctid yng Nghymru.




Gwelsom ein bod yn gwybod llawer am ddarpariaeth cynghorau (awdurdodau lleol), ond nid oes llawer o wybodaeth am beth arall sydd ar gael. Dydyn ni ddim yn siŵr pwy arall sy'n gwneud gwaith ieuenctid nac yn siŵr a yw pob person ifanc 11-25 oed yn gallu cael mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid os ydyn nhw eisiau.

Cafodd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro ei sefydlu yn 2018 i gynrychioli pobl ifanc a'r sector gwaith ieuenctid. Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phobl ifanc i wella'r cyfleoedd gwaith ieuenctid sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghymru. Roedd Strategaeth Gwaith Ieuenctid yn rhan o'u gwaith, ac mae'r strategaeth hon yn weledigaeth ar gyfer sut y gall pawb weithio gyda'i gilydd i wella gwaith ieuenctid yng Nghymru.



Fel rhan o'n hymchwil roeddem wedi cyfweld â sefydliadau gwaith ieuenctid a rhai pobl ifanc. Fe wnaethom hefyd edrych ar ymchwil arall am waith ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys holiaduron i bobl ifanc.



Beth yw gwaith ieuenctid?

Mae gwaith ieuenctid yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed i ddysgu, mynegi eu hunain, cymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, a bod y gorau y gallan nhw fod.

Mae'n rhoi lle diogel i gefnogi pob person ifanc i dyfu, cael llais, deall eu hawliau, dysgu, cael hwyl, bod gyda phobl ifanc eraill a bod yn rhan o'r gymuned.

Mae'n dechrau ble bynnag mae pobl ifanc yn eu bywydau bryd hynny ac mae'n cydnabod potensial pawb. Gall pobl ifanc ddewis a ydyn nhw eisiau gwneud gwaith ieuenctid ai peidio ac maen nhw'n bartneriaid cyfartal gyda'r oedolion wrth benderfynu beth sy'n digwydd yn y lleoliad gwaith ieuenctid.

Mae gwaith ieuenctid yn digwydd mewn llawer o lefydd gwahanol, er enghraifft:

- Clybiau ieuenctid a chanolfannau ieuenctid
- Sefydliadau ieuenctid gwirfoddol a rhai sy'n gwisgo iwnifform
- Ar y stryd
- Prosiectau cyffuriau ac alcohol
- Dros y ffôn ac ar-lein

Sut mae pobl ifanc yn teimlo am waith ieuenctid?

Holiadur Dewch iDrafod!

Cymerodd 633 o
bobl ifanc ran yn
holiadur y Bwrdd
Gwaith
Ieuenctid Dros Dro

Beth mae gwaith
ieuenctid yn ei olygu i
bobl ifanc a beth
mae'n ei gynnig? Dyma
beth ddywedodd y
bobl ifanc...

Beth yw'r strategaeth gwaith ieuenctid?

GWELEDIGAETH

Cliciwch yma
i gael rhagor
o wybodaeth

yw hi o sut dylai gwaith ieuenctid yng Nghymru fod yn y dyfodol ac i ddweud wrth bobl am waith ieuenctid.

I bawb weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr fod pobl ifanc yn cael yr hyn y mae ganddynt hawl iddo.

**Beth mae
gwaith
ieuenctid yn ei
olygu i chi?**

TEIMLAD O BERTHYN
gemau hwyliog
cymryd rhan mewn gweithgareddau
MYNEDIAD I'R RHYNGRWDYD
gwneud ffrindiau
rhywun i wrando arna i
DYSGU PETHAU
CAEL CEFNOGAETH
cael hwyl
OEDOLION DIBYNADWY
cwrdd â ffrindiau
COGINIO
lle diogel
GWIRFODDOLI
GADAEL Y Tŷ
CAEL CYNGOR
PARCHU
EIN GILYDD
sgiliau bywyd
helpu ffrindiau
help gyda gwaith
ysgol



Mae pobl ifanc eisiau gweld...

MWY O



Agor ar y penwythnos
Agor yn ystod gwyliau'r haf
Oriaau hirach



Mwy o dripiâu
Hyfforddiant sgiliau bywyd (fel coginio)
Cefnogaeth gydag iechyd a lles

{Llai}



Llai o ffocws ar weithgareddau y gallan
nhw eu gwneud yn yr ysgol



Holiaduron
ar-lein



Twitter



Snapchat



WhatsApp



YouTube



Facebook



Instagram

**Beth mae pobl ifanc eisiau ei
weld gan waith ieuenctid
– defnyddio'r cyfryngau
cymdeithasol**



Ymwybyddiaeth
cyffuriau/alcohol

Disgos

Codi arian

LGBTQ +

Teithio

Teithiau
chwaraeon

Sinema

Digwyddiadau ar
benwythnosau ac yn
ystod gwyliau

Gweithdai mewn
gwahanol leoliadau

Gweithgareddau
ymarferol
e.e. gwaith coed

Ymwybyddiaeth
o fwlio

Mwy o weithdai
creadigol

Digwyddiadau
yn ystod y dydd

Digwyddiadau
gyrfa

Digwyddiadau ar
gyfer/gyda'r gymuned
e.e. bore coffi

Iechyd
rhywiol

Gweithdai ar
hunanofal

Coginio

ieuenctid - syniadau am weithdai/digwyddiadau

Rhoi cymorth
gydag addysg a
chyflogaeth

Mwy o oriau i
wneud gwaith
ieuenctid

Gofyn i ni beth ydyn ni eisiau ac esbonio
pethau i ni mewn ffordd rydyn
ni'n ei ddeall (trafodaethau agored)

Cefnogi pobl
ifanc

Gadael i ni fod yn fwy o
ran o'r cynllunio

Rhannu ein syniadau
a'n hadborth gyda
gweithwyr
ieuenctid

Datrys problemau
mwy o faint

Gall gweithwyr
ieuenctid
siarad ar ein
rhan

Helpu i ennill
sgiliau a
gwybodaeth

Cael mwy o
weithwyr ieuenctid
mewn ysgolion

Gostwng yr
oedran
gwirfoddoli

Bod ar gael
mwy/mewn mwy
o lefydd/yn
amlach

Sut mae gweithwyr ieuenctid yn gallu helpu?



Beth ydyn ni'n ei wybod am waith ieuenctid yng Nghymru?


Rydyn ni'n gwybod llawer am beth mae cynghorau (awdurdodau lleol) yn ei ddarparu, ond does dim llawer o ddata am beth arall sydd ar gael, gan gynnwys gwaith ieuenctid gan elusennau a sefydliadau gwirfoddol.

Oherwydd nad yw'r wybodaeth hon gennym, dydyn ni ddim yn gwybod a yw pob person ifanc yng Nghymru yn gallu cael mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid neu a ydyn nhw'n gallu cael mynediad atynt yn eu dewis iaith.



O'r hyn rydyn ni'n ei wybod am y ddarpariaeth gan gynghorau yng Nghymru, gallwn ddweud bod...

Llai o arian yn cael ei wario ar waith ieuenctid gan awdurdodau lleol (cynghorau)
na 5 mlynedd yn ôl



*Yn seiliedig ar bob person 11 i 25 oed yng Nghymru. Nid yw ffigyrau 2013-14 yn cynnwys Ynys Môn ac nid yw ffigyrau 2018-2019 yn cynnwys Ynys Môn a Powys. Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru

Mae faint o arian sy'n cael ei wario yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw*



**Am bob person ifanc
Blaenau Gwent
– y gwariant uchaf**



**Am bob person ifanc
Caerdydd
– y gwariant isaf**

*Yn seiliedig ar bob person ifanc 11 i 25 oed yn yr Awdurdodau Lleol hyn. Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru

Mae llai o bobl ifanc yn mynychu clybiau neu weithgareddau ieuenctid awdurdodau lleol na 5 mlynedd yn ôl

Yn 2013-14 roedd

117,200 o bobl

(sef 20% o bobl ifanc 11-25 oed yng Nghymru) wedi cofrestru'n aelodau o ddarpariaeth gwaith ieuenctid o'i gymharu â

82,400

yn 2018-19

(sef 15% o'r rhai 11-25 oed yng Nghymru)*

Nid yw ffigyrau 2013-14 yn cynnwys Ynys Môn ac nid yw ffigyrau 2018-2019 yn cynnwys Ynys Môn a Powys. Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru



Mae cynnydd wedi bod mewn gwaith ieuenctid sydd wedi'i anelu at grwpiau penodol (er enghraifft pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) o gymharu â gwaith ieuenctid sy'n agored i bawb.

Ond dim ond rhan o'r darlun cyfan yw hyn: dydyn ni ddim yn gwybod a oes mwy o waith ieuenctid yn cael ei ddarparu erbyn hyn gan elusennau a sefydliadau gwirfoddol nag yn 2013-14 neu a yw'r sefydliadau hyn yn gwario mwy o arian ai peidio.



Er nad ydyn ni'n gwybod y stori gyfan, y newyddion da yw bod pobl sy'n gweithio i sefydliadau gwaith ieuenctid a phobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod yn credu bod y gwaith ieuenctid a wneir yng Nghymru o ansawdd da.

Sut gallwn ni wella gwaith ieuenctid yng Nghymru?

Mae gwaith ieuenctid yn bwysig a dylai pawb allu cymryd rhan yn y cyfleoedd hyn. I wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am waith ieuenctid yng Nghymru wneud y canlynol:



Cryfhau'r deddfau sy'n ei gwneud yn ofynnol i wdurdodau lleol ddarparu gwaith ieuenctid i bob person ifanc

- Gwneud yn siŵr bod pawb yn deall faint o waith ieuenctid sydd ei angen



Sicrhau bod pawb ar yr un dudalen

- Gwneud yn siŵr bod pawb yn rhannu'r un weledigaeth ar gyfer y sector o Lywodraeth Cymru i gynghorau lleol i sefydliadau gwirfoddol
- Creu sefydliad i gynrychioli gwaith ieuenctid yn genedlaethol



Cael gwahanol grwpiau lleol i weithio gyda'i gilydd

- Darparu strwythurau i sicrhau bod llywodraeth leol yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol i gynllunio a chydlynu darpariaeth



Sicrhau bod y gweithlu'n cynrychioli amrywiaeth Cymru

- Recriwtio a chefnogi gweithwyr sy'n siarad Cymraeg, sy'n dod o ethnigrwydd gwahanol ac sydd â gwahanol alluoedd



Cefnogi a hyfforddi gweithwyr i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl

- Gwneud yn siŵr bod pob gweithiwr (yn wirfoddolwyr ac yn weithwyr proffesiynol) yn cael yr hyfforddiant cywir i ddarparu gwasanaeth o safon



Casglu data a defnyddio'r data hwn i weld ble mae angen mwy o gefnogaeth

- Bydd data da yn helpu'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a Llywodraeth Cymru i ddeall ym mha ardaloedd ac ar gyfer pa grwpiau y mae angen mwy o gyfleoedd gwaith ieuenctid



Sicrhau bod cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer cyfleoedd gwaith ieuenctid

- Helpu i sicrhau bod cyllid ar gael i ddarparu gwaith ieuenctid i bob person ifanc



Sicrhau bod pobl ifanc yn rhan o wneud penderfyniadau am waith ieuenctid

- Sicrhau bod gwaith ieuenctid yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl ifanc ei eisiau a'i angen
- Gwneud Llywodraeth Cymru ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol i bobl ifanc am y gwaith ieuenctid y maent yn ei ddarparu

Os caiff hyn oll ei gyflawni, yna bydd pob person ifanc yn gallu cael mynediad at gyfleoedd sy'n...



Addysgol

Helpu pobl ifanc i ennill y sgiliau, y wybodaeth a'r gwerthoedd sydd eu hangen arnynt i dyfu fel unigolion.



Mynegiannol

Cefnogi pobl ifanc i fynegi eu hunain



Cyfranogol

Cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau am waith ieuenctid a'u hannog i gael mwy o ran mewn penderfyniadau am eu cymuned



Cynhwysol

Galluogi pobl ifanc i ddysgu am amrywiaeth, ieithoedd a threftadaeth a'u hannog i barchu dewisiadau eraill



Grymusol

Gwneud yn siŵr bod gan bobl ifanc y wybodaeth a'r sgiliau i arfer eu hawliau, i fod yn aelodau cyfrifol o'u cymunedau, ac i arwain

PARHARU MANNAU DIOGEL A LLE I FEITHRIN PERTHYNAS AG ERAILL

Ac yna bydd pobl ifanc...



Yn mwynhau
eu hunain



Yn teimlo'n
ddiogel



Yn teimlo
wedi'u cefnogi



Yn teimlo eu
bod yn cael eu
gwerthfawrogi



Yn cael eu
herio

Ac yn yr hirdymor byddant...



Yn cael gwell rheolaeth
ar eu bywydau



Yn datblygu
gwybodaeth a sgiliau



Yn adnabod ac yn
gwrthsefyll
dylanwadau niweidiol
a allai effeithio arnynt



Yn datblygu eu llais,
eu dylanwad a'u lle
mewn cymdeithas


Byddant yn Cyfrannu At Gymru Sy'n...

Ffyniannus
a diogel

Iach
ac egnïol

Unedig
a chysylltiedig

Uchelgeisiol
ac yn dysgu



A...



**Cymru
lewyrchus**



**Cymru
gydnerth**



**Cymru
iachach**



**Cymru sy'n
fwy cyfartal**



**Cymru sy'n
gyfrifol ar lefel
fyd-eang**



**Cymru o
gymunedau
cydlynus**



**Cymru â
diwylliant bywiog lle
mae'r Gymraeg yn
ffynnu**

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron: Tom Marshall, Llorenc O'Prey,
Andy Parkinson, Sam Grunhut, Ioan
Teifi, Sarah Usher & Eddie Knight

Adroddiad creadigol: Tom Marshall &
Paula Gallagher



www.wavehill.com



[/Wavehill1](https://www.facebook.com/Wavehill1)



[/wavehilltweets](https://twitter.com/wavehilltweets)



wavehill@wavehill.com



01545 571 711

Cliciwch yma i ddarllen yr
adroddiad llawn



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fi gael rhagor o wybodaeth,
cysylltwch â:

Tîm Ymchwil Ysgolion
Gwasanaethau Gwybodaeth a

Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0259247

Ebost: SchoolsResearch@gov.wales

